



YSGOL PLAS COCH

Mr Osian Jones BA
Pennaeth Head Teacher

E-bost/E-mail: mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk

Annwyl Rieni,

Byddwn yn cystadlu eto eleni yng nghystadleuath côr yn Eisteddfod yr Urdd. Mae'n ofynnol i mi eich hysbysu fod rhaid cael ymrwymiad mawr i'r ymarferion gan fod pob llais yr un mor bwysig â'i gilydd.

Bydd gofyn i bob aelod o'r côr fod ar gael i ymarfer ar ôl ysgol bob nos Lun o 3:30 - 4:30 y.p yn dechrau Tachwedd y 5^{ed} ac yn bwysicach fyth i berfformio yn yr Eisteddfod Cylch ar Ddydd Sadwrn 23^{ain} o Fawrth 2019, yn yr Eisteddfod Sir ar Ddydd Sadwrn y 6^{ed} o Ebrill 2019, (lleoliad i'w gadarnhau) ac os yn llwyddiannus, yna yn y Genedlaethol yng Nghaerdydd ar Ddydd Mawrth 28^{ain} o Fai 2019. Cofiwch ystyried y bydd costau i deithio i Gaerdydd.

Er mwyn dechrau ar y darn gosod, hoffwn gynnal ymarferion cyn y Nadolig sef,

Dydd Llun, Tachwedd 5, 12, 19, 26 Rhagfyr 3, 17, ac yna ail gychwyn ar Ddydd Llun Ionawr 14, 2019.

Dim ond lle i 40 sydd yn y côr, felly a wnewch chi lenwi'r ffurflen isod a'i ddychwelyd i mi erbyn Dydd Mercher y 24^{ain} o Hydref fan bellaf. Felly cofiwch cyn ymuno, meddylwch yn ofalus am yr ymrwymiad sydd i chi a'ch plentyn. Byddwn hefyd yn creu partion unsain flwyddyn yma i gyd-fynd a'r côr, ac yn ymarfer darnau unigolion.

Gyda diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parod,

Elen Mostyn

✂-----

Hoffwn i fy mhlentyn fod yn aelod o'r côr, ac rwyf yn ymwybodol o'r ymrwymiad sydd ei hangen.

Enw: _____

Dosbarth: _____

Llofnod: _____